



# Dafydd ap Gwilym – CA5

## Tasg 3: Gramadeg / Arddweud

### Gramadeg Bodolaeth

Gofyniad: ‘... A ydwyf?’

Gosodiad: ‘Yr ydwyf,’ Atalnod

Gofyniad; ‘A ydwyf? ...’

Thomas, G. (2013) *Profiadau Inter Galatig*, Barddas: Llandybïe (t. 100)

### Tasg

Yn yr hen amser, cyn dyddiau prosesydd geiriau a chyfrifiadur, byddai pobl yn arddweud llythyrau wrth ysgrifennydd/ysgrifenyddes.

Roedd hi’n bwysig rhoi sylw i bob manylyn, gan ddweud nid yn unig y geiriau oedd i’w cynnwys ond hefyd pob atalnod.



priflythyren	ABC
llythyren fach	abc
atalnod	,
atalnod llawn	.
brawddeg newydd	
agor cromfach	(
cau cromfach	)
agor dyfyniad	“
cau dyfyniad	”
colon	:
hanner colon	;
gofynnod	?
ebychnod	!
collnod	'
acen grom	^
paragraff newydd	//
cysylltnod (heiffen)	-
gwahannod	—



## Darn 1

Partner 1 i ddweud y darn hwn wrth Bartner 2, a phartner 2 i'w ysgrifennu gan ddilyn y cyfarwyddiadau'n ofalus.

Dafydd ap Gwilym: dyma inni ŵr nad ydym ni ddim yn gwybod dyddiad ei eni, na dyddiad ei farw. Dydi hyn ddim yn ddechrau addawol i unrhyw lyfr am neb. Mewn gwirionedd, y mae'n amhosib peidio â bod yn gryno am ei fywyd o —ac yn gwbl amhosib dweud unrhyw beth newydd am y bywyd hwnnw gan fod y dystiolaeth wrthrychol amdano fo mor brin, ac wedi ei harchwilio'n arwrol a gofalus ddi-hysbyddol gan fwy nag un to o ysgolheigion. Wrth gwrs, yr oedd yna un a oedd yn gwybod cryn dipyn am Ddafydd ap Gwilym, sef Iolo Morganwg (1747—1826) ond, yn anffodus, rhith neu hanner rhith —hanner rhith o'r de, plŷs — yn ei feddwl o'i hun oedd y Dafydd ap Gwilym hwnnw, felly 'awn ni ddim ar ei ôl o.

Tudalen 9

## Darn 2

Partner 2 i ddweud y darn hwn wrth Bartner 1, a phartner 1 i'w ysgrifennu gan ddilyn y cyfarwyddiadau'n ofalus.

Y mae meddwl am fardd â thelyn yn ei law yn dod â ni i ystyried beth a olygai bod yn fardd 'swyddogol' yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Y mae'n gamsynied gweddol gyffredin i feddwl fod y gynghanedd wedi bod yn rhan o farddoniaeth ein beirdd wrth eu swydd o'r dechrau. Naddo. [...] Yn raddol y gweithiodd y gynghanedd ei ffordd i'n barddoniaeth ...

Pwy bynnag a sylweddolodd fod yna system, bod yna bedair cynghanedd sylfaenol, a bod y rheini i'w canu ar wahanol fathau o fesurau, yr oedd hwnnw (os mai un ydoedd) yn athrylith. Y tebyg ydi mai Einion Offeiriad oedd o. Yn sicr, efô oedd awdur y fersiwn gynharaf sydd ar gael o Ramadeg y Beirdd, tua 1316—17, ac efô — yn ôl pob tebyg — a ddyfeisiodd rai mesurau newydd. (Y mae'n werth nodi, hefyd, fod yna arwyddion sicr fod Dafydd yn gwybod am Ramadeg Einion Offeiriad.)

Tudalen 23



Cywirwch waith eich gilydd.

Pa mor glir oedd eich cyfarwyddiadau chi?

Pa mor astud roeddech chi'n gwrando ar gyfarwyddiadau eich gilydd?